OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 813 (Cy. 203) (C. 57)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2016

*Gwnaed - - - - 25 Gorffennaf 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 257(2) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2016.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

### Y diwrnod penodedig

**2.** 5 Awst 2016 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn ddod i rym—

(a) darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen at ddiben gwneud rheoliadau; a

(b) darpariaethau'r Ddeddf a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen at ddiben dyroddi canllawiau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

(**1**) 2016 dccc 1.

*Carl Sargeant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, un o Weinidogion Cymru

YR ATODLEN

Erthygl 2

Y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n dod i rym ar 5 Awst 2016

# RHAN 1

## Y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n dod i rym at ddiben gwneud rheoliadau

**1.** Adran 23 (darpariaethau atodol).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I3** Atod. para. 1 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**2.** Adran 29 (datganiad ysgrifenedig enghreifftiol o gontract).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I4** Atod. para. 2 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**3.** Adran 32(4) (yr hyn y mae datganiad ysgrifenedig i'w gynnwys).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I5** Atod. para. 3 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**4.** Adran 45(3) (gofyniad i ddefnyddio cynllun blaendal).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I6** Atod. para. 4 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**5.** Adran 94 (penderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I7** Atod. para. 5 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**6.** Adran 112 (tynnu'n ôl: pŵer i ragnodi terfynau amser).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I8** Atod. para. 6 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**7.** Adran 131 (tynnu'n ôl: y pŵer i ragnodi terfynau amser).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I9** Atod. para. 7 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**8.** Adran 203(5) a (6) (adolygiad y landlord o benderfyniad i roi hysbysiad).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I10** Atod. para. 8 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**9.** Adran 221 (gwaredu eiddo).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I11** Atod. para. 9 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**10.** Adran 236(3) a (4) (ffurf hysbysiadau, datganiadau a dogfennau eraill).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I12** Atod. para. 10 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**11.** Paragraff 15(10) o Atodlen 2 (ymestyn y cyfnod perthnasol).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I13** Atod. para. 11 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**12.** Paragraff 17 o Atodlen 2 (pŵer i ddiwygio'r Atodlen).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I14** Atod. para. 12 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**13.** Paragraff 10(2) o Atodlen 3 (llety myfyrwyr).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I15** Atod. para. 13 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**14.** Paragraff 15(3) a (4) o Atodlen 3 (llety nad yw'n llety cymdeithasol).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I16** Atod. para. 14 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**15.** Paragraff 17 o Atodlen 3 (pŵer i ddiwygio'r Atodlen).

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** Atod. para. 15 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**16.** Paragraff 4(7) a (8) o Atodlen 4 (adolygiad y landlord o benderfyniad i ymestyn cyfnod rhagarweiniol).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Atod. para. 16 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**17.** Paragraff 1(6) o Atodlen 5 (cynlluniau blaendal).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. para. 17 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**18.** Paragraff 5(7) a (8) o Atodlen 7 (adolygiad y landlord o benderfyniad i ymestyn cyfnod prawf).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Atod. para. 18 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**19.** Paragraff 15(2) o Atodlen 12 (amrywio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. para. 19 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**20.** Paragraff 33 o Atodlen 12 (pŵer i ddiwygio'r Atodlen).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I22** Atod. para. 20 mewn grym ar y dyddiad gwneud

## RHAN 2

### Y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n dod i rym at ddiben dyroddi canllawiau

**21.** Adran 116(4) (gorchymyn sy'n arddodi contract safonol cyfnodol oherwydd ymddygiad gwaharddedig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. para. 21 mewn grym ar y dyddiad gwneud

**22.** Adran 146(1) (gwahardd dros dro: canllawiau).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I24** Atod. para. 22 mewn grym ar y dyddiad gwneud

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 5 Awst 2016 at ddibenion gwneud rheoliadau a dyroddi canllawiau.

Mae erthygl 2(a) o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf, ond at ddiben gwneud rheoliadau yn unig.

Mae erthygl 2(b) o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf, ond at ddiben dyroddi canllawiau yn unig.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Gorchymyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2016. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.

View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– art. 1 coming into force by

– art. 2 coming into force by